Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Llanllyfni
# Llanllyfni
# Caernarfon
# Gwynedd
# LL54 6SH

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2011**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Hawlfraint y Goron 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Caiff Ysgol Llanllyfni ei chynnal gan awdurdod lleol Gwynedd ac mae'n gwasanaethu'r pentref ei hun a'r ardal wledig o gwmpas. Mae'n ardal sydd wedi dioddef yn sgil y dirywiad yn y diwydiant llechi ac mae diweithdra ac amddifadedd cymdeithasol yn nodwedd o'r dalgylch. Mae'r disgyblion yn cynrychioli ystod eang o allu.

Ar hyn o bryd, mae 81 o ddisgyblion rhwng tair ac 11 oed ar gofrestr yr ysgol. Maent yn cychwyn eu haddysg yn rhan amser yn y Medi wedi iddynt gyrraedd eu trydydd pen-blwydd, ac yn llawn amser yn y Medi canlynol. Mae nifer y disgyblion wedi syrthio rhyw ychydig ers yr arolygiad diwethaf.

Mae gan 22% o'r disgyblion yr hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim, ffigwr sydd wedi cynyddu'n gyson dros y blynyddoedd diwethaf. Mae ffigwr hwn yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer yr awdurdod lleol. Mae 21% o ddisgyblion ar y gofrestr anghenion addysgol arbennig, ac mae gan un disgybl ddatganiad o anghenion addysgol arbennig.

Daw 95% o'r disgyblion o gartrefi ble siaredir y Gymraeg ar yr aelwyd a bernir fod bron pawb yn dod i fedru ei defnyddio fel iaith gyntaf. Cymraeg yw iaith bob dydd yr ysgol a phrif gyfrwng yr addysgu a'r dysgu.

Y gyllideb ysgol unigol yn 2010-2011 fesul disgybl ar gyfer Ysgol Llanllyfni yw £3,337, sy'n cymharu gydag uchafswm o £8,442 ac isafswm o £2,717 ar gyfer ysgolion cynradd yng Ngwynedd. Yr ysgol sydd â'r gyllideb fesul disgybl 61ain uchaf o'r 103 ysgol gynradd yng Ngwynedd.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn Chwefror 2005.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad cyfredol yr ysgol yn dda oherwydd:

- bod bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol;
- bod gallu cynyddol disgyblion ar draws yr ysgol i weithio'n annibynnol ac i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain yn gryfder;
- bod gweithdrefnau asesu ar gyfer dysgu yn dylanwadu'n gadarnhaol ar safonau; a
- bod yr ysgol yn hyrwyddo lles y disgyblion yn effeithiol iawn.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- bod y pennaeth ac arweinwyr yr ysgol yn rhoi cyfeiriad strategol clir i fywyd a gwaith yr ysgol;
- bod holl randdeiliaid yr ysgol yn gweithio fel tîm i sicrhau safonau uchel;
- gwelir cynnydd yng nghanlyniadau'r ysgol yn ystod y tair blynedd diwethaf; a
- bod yr ysgol yn rhoi blaenoriaeth i ddatblygu medrau addysgu staff.

## Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen i’r ysgol:

A1 gynnal y safonau uchel sydd eisoes yn bodoli;

A2 datblygu ymhellach weithdrefnau safoni a chymedroli yng nghyfnod allweddol 2;

A3 sicrhau bod yr arfer addysgu orau’n cael ei ledaenu ar draws yr ysgol; a

A4 pharhau i ddatblygu’r ardaloedd dysgu allanol.

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn paratoi cynllun gweithredu o fewn 45 diwrnod i amlinellu sut mae’n mynd i’r afael â’r materion hyn.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Dros eu cyfnod yn yr ysgol, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn iawn yn eu dysgu. Mae safon y goreuon yn uchel iawn, ac mae pob disgybl yn ymateb yn llwyddiannus i ofynion y tasgau a osodir iddynt.

Erbyn cyrraedd pen uchaf cyfnod allweddol 2, mae'r disgyblion bron i gyd yn ateb cwestiynau yn estynedig, yn canolbwyntio ar eu tasgau ac yn datrys problemau'n effeithiol. Maent yn medru cyfiawnhau penderfyniadau a chynnig barn yn rhugl a hyderus. Mae'r goreuon ym Mlynyddoedd 5 a 6 yn gweithio'n annibynnol, gan gynllunio a gweithredu eu tasgau a chymhwyso medrau y maent eisoes wedi eu dysgu i sefyllfaoedd newydd yn hyderus iawn.

Yn gyffredinol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio strategaethau asesu ar gyfer dysgu a medrau meddwl yn llwyddiannus yng nghyd-destun eu dysgu. Maent yn medru adfyfyrio ar eu dysgu eu hunain o fewn eu gwersi.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen ar lefel sy'n briodol i'w hoed a'u gallu, ac maent yn gwneud defnydd llawn ac eang o'u medrau ysgrifennu ar draws meysydd dysgu amrywiol. Mae gallu llafar disgyblion ym mhen uchaf yr ysgol yn ardderchog yn y Gymraeg ac yn gadarn yn Saesneg. Gallant drin a thrafod amrywiol bynciau yn effeithiol iawn yn estynedig gan ddefnyddio geirfa eang a phwrpasol.

Mae asesiadau athro ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 a chyfnod allweddol 2 yn dangos cynnydd cyffredinol a chyson ym mherfformiad disgyblion dros y tair blynedd ddiwethaf.

Yng nghyfnod allweddol 1, er i'r ysgol berfformio islaw cyfartaleddau'r teulu, yr awdurdod lleol a Chymru yn y gorffennol, erbyn 2010 roedd perfformiad yr ysgol yn debyg iawn. Yr oedd canlyniadau Cymraeg a gwyddoniaeth yn y 25% uchaf o'u cymharu ag ysgolion tebyg ar sail canrannau cinio am ddim, a chanlyniadau mathemateg ymhlith yr 50% uchaf.

Yng nghyfnod allweddol 2, bu cynnydd da yn 2010 yng nghanlyniadau disgyblion mewn Saesneg, a chynnydd cyson mewn Cymraeg a mathemateg. Er bod cynnydd yng nghanlyniadau gwyddoniaeth, nid yw'r cynnydd hwnnw cymaint ag ydyw o fewn y teulu, yr awdurdod a Chymru. Mae'r pynciau craidd i gyd yn y 50% isaf o'u cymharu gydag ysgolion tebyg,

Nid oes gwahaniaeth amlwg mewn perfformiad bechgyn a merched yn y naill gyfnod allweddol na'r llall yn ystod y tair blynedd diwethaf.

Mae'r disgyblion sy'n hawlio cinio am ddim yn gwneud cynnydd priodol ac mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da yn erbyn targedau eu cynlluniau addysg unigol.

Er bod y disgyblion mwyaf galluog yn cyrraedd safonau ardderchog yn eu gwersi, nid yw hyn yn cael ei adlewyrchu yn y nifer o ddisgyblion sy’n cyrraedd lefel 5 neu uwch ar ddiwedd cyfnod allweddol 2.

**Lles: Rhagorol**

Mae gan y rhan fwyaf o’r disgyblion ymwybyddiaeth gref fod bwyta’n iach a ffitrwydd yn cyfrannu at gorff a meddwl iach. Maent hefyd yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn o reolau er mwyn lles a diogelwch, a’r dylanwadau sy’n gallu effeithio ar fywyd iach.

Mae’r disgyblion yn dangos parch mawr tuag at ei gilydd. Maent yn falch iawn o’u hysgol ac o’r gymuned glos a geir ynddi.

Mae agwedd y disgyblion at ddysgu yn ardderchog. Maent yn cymryd cyfrifoldeb brwdfrydig ac effeithiol am eu dysgu eu hunain, ac yn cefnogi ei gilydd yn arbennig o dda yn eu gwersi a’u gweithgareddau.

Roedd presenoldeb am y flwyddyn ysgol 2009-2010 yn 94% ac wedi cynyddu’n gyson dros y pedair blwyddyn diwethaf ar gyfer disgyblion o oed gorfodol. Mae hyn yn agos at y cyfartaledd cenedlaethol a sirol, ac yn gosod yr ysgol y 50% uchaf o ysgolion tebyg ar sail yr hawl i ginio am ddim. Ni fu unrhyw absenoldebau heb eu hawdurdodi. Mae prydlondeb wrth gyrraedd yr ysgol ac i’r sesiynau dysgu yn dda ar y cyfan.

Mae ymddygiad y disgyblion yn arbennig o dda. Mae’r disgyblion yn gwrtais ac yn ddiffuant o groesawgar ac yn awyddus iawn i sôn am rinweddau eu hysgol. Ni fu gwaharddiad o unrhyw fath ers nifer fawr o flynyddoedd.

Mae’r cyngor ysgol yn gryf gyda chyfrifoldebau’r aelodau yn glir. Mae aelodau’r yn weithgar a chyfrifol, ac yn hyderus bod nifer o argymhellion y cyngor yn cael eu hystyried a’u gweithredu. Mae hon yn elfen ragorol o fywyd yr ysgol ac yn rhoi hawl a hyder i’r disgyblion gymryd gwir diddordeb ynddynt eu hunain ac yn eu gwaith.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw’r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae’r holl athrawon yn darparu ystod eang a chytbwys o brofiadau dysgu ysgogol i fodloni anghenion y disgyblion. Maent yn paratoi’r disgyblion yn dda iawn ar gyfer dod yn aelodau cyfrifol o’r gymuned. Maent yn cynllunio ystod o weithgareddau diddorol ac yn talu sylw gwerthfawr i ddisgyblion o bob gallu. Mae’r athrawon hefyd yn talu sylw ardderchog i ddatblygu medrau allweddol a medrau creadigol, datrys problemau, a medrau meddwl ar draws y cwricwlwm.

Ysgol naturiol Gymraeg yw hon ac mae’r disgyblion yn hollol hyderus wrth siarad Cymraeg. Cymraeg yw cyfrwng y rhan fwyaf o’r gwersi ond, yng nghyfnod allweddol 2, cyflwynir rhai agweddau pynciol trwy gyfrwng y Saesneg er mwyn sicrhau darpariaeth deg i’r ddwy iaith.

Mae’r Cwricwlwm Cymreig yn nodwedd gadarn iawn ym mywyd yr ysgol. Mae’r athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn ymwybodol o’u traddodiadau a’u hetifeddiaeth ac yn trefnu amrywiaeth o deithiau i gryfhau eu dealltwriaeth. Maent yn defnyddio’r ardal leol a’i phobl i ddarparu gweithgareddau dysgu cyfoethog sy’n galluogi’r disgyblion i ennill gwybodaeth a dealltwriaeth dda o’r amgylchedd ac o hanes yr ardal. Mae’r ysgol yn llwyddo i ddatblygu balchder y disgyblion yn eu hardal a’u hymwybyddiaeth ohoni yng nghyd-destun Cymru gyfan.

Derbyniodd yr ysgol faner Ysgol Werdd y cynllun Ecosgolion. Mae hwn yn hyrwyddo prosesau fel ailgylchu, arbed ynni a bwyta’n iach yn dra llwyddiannus. Mae’r ysgol yn cynnig profiadau dinasyddiaeth fyd-eang amrywiol trwy weithgarwch daearyddiaeth a’r cysylltiadau â gwledydd Ewropeaidd sy’n cyfoethogi eu profiadau ar draws y cwricwlwm.

**Addysgu: Da**

Mae gan yr athrawon wybodaeth bynciol dda ac maent yn cynllunio ystod o weithgareddau diddorol sy’n ysgogi’r disgyblion. Mae cydweithio effeithiol rhwng yr athrawon a’r cynorthwywyr dosbarth ar draws yr ysgol.

Bron yn ddieithriad, mae’r berthynas rhwng yr athrawon a’r disgyblion yn un sy’n annog cwrteisi a pharch. Mae disgwyliadau’r athrawon ar yn uchel ac maent yn darparu tasgau gwahaniaethol sy’n adeiladu’n effeithiol ar brofiad blaenorol disgyblion ac yn eu herio. Mae’r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau’r disgyblion mwyaf galluog yn llwyddiannus iawn. Mae nodau dysgu a meini prawf llwyddiant yn cael eu rhannu gyda’r disgyblion yn y mwyafrif o wersi.

Mae ethos cefnogol ac awyrgylch weithgar ym mhob dosbarth. Ar y cyfan, gwelir enghreifftiau defnyddiol o farcio manwl ac ymateb adeiladol i waith disgyblion, sy’n eu helpu i ddeall sut i ddatblygu eu gwaith ysgrifenedig ymhellach. Mae athrawon yn galluogi’r disgyblion i adnabod targedau ar gyfer gwella ac yn eu cofnodi’n llwyddiannus mewn amrywiol ffyrdd.

Mae systemau asesu effeithiol gan yr ysgol sy’n crynhoi cynnydd y disgyblion ac yn galluogi cynllunio ar gyfer y camau nesaf yn natblygiad y disgyblion. Mae system dracio syml yn cael ei defnyddio’n effeithiol i fonitro cynnydd y disgyblion drwy’r ysgol, gan gynnwys y disgyblion galluog a’r rhai sy’n debygol o dangyflawni erbyn diwedd y cyfnod allweddol. Er hynny, nid yw’r gweithdrefnau ar gyfer safoni a chymedroli gwaith disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 eto wedi eu datblygu’n ddigon effeithiol.

Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn cael lle blaenllaw yng nghynlluniau’r athrawon ac y maent yn gwneud defnydd cyson ac effeithiol iawn ohonynt er mwyn codi safonau ar draws y cwricwlwm.

Mae adroddiadau i rieni yn cyrraedd y gofynion statudol, gyda’r wybodaeth briodol yn ei le. Mae rhieni a gofalwyr yn derbyn gwybodaeth dda iawn am gynnydd eu plant

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol**

Mae’r ysgol yn gymuned drefnus a gofalgar sydd yn hyrwyddo disgwyliadau uchel iawn. Mae’r gweithdrefnau’n hyrwyddo hyder a medrau personol a chymdeithasol y disgyblion yn hynod effeithiol.

Mae’r ysgol yn sicrhau bod gwybodaeth dda gan y staff am amddifadedd cymdeithasol a phroblemau lles penodol, ac yn gweithio’n agos gyda theuluoedd ac asiantaethau allanol er mwyn cynnal a chefnogi disgyblion lle bo’r angen. Mae hyn yn gryfder amlwg yn yr ysgol.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol yn rhagorol. Mae arferion beunyddiol yr ysgol, yn hyrwyddo gwerthoedd uchel megis gonestrwydd, goddefgarwch a thegwch.

Mae’r ysgol hefyd yn hyrwyddo datblygiad synnwyr o gyfrifoldeb yn dda, wrth i’r disgyblion ymwneud â’i gilydd, wrth ymwneud â’u tasgau dosbarth ac wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol.

Mae gan yr ysgol raglen benodol a rheolaidd o holi barn disgyblion ar agweddau lles ac mae arweinwyr a staff yr ysgol yn ystyried ac yn gweithredu ar y farn honno e.e. trwy gyfrwng y cyngor ysgol neu holiaduron.

Mae’r trefniadau ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd priodol yn erbyn eu targedau. Mae’r disgyblion mwyaf abl a thalentog yn derbyn sylw arbennig o dda er mwyn diwallu eu hanghenion. Mae’r ysgol yn rhagweithiol wrth gydweithio’n effeithiol ag asiantaethau allweddol i gefnogi disgyblion.

Mae gan yr ysgol bolisi priodol ac mae ganddi weithdrefnau ar gyfer diogelu plant. Mae arweiniad clir i bob aelod o staff ac maent yn ymwybodol o’r gweithdrefnau**.**

Mae’r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn llwyddiannus. Mae’r ysgol hefyd yn datblygu iechyd a lles disgyblion yn effeithiol iawn.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae’r ysgol hon yn gweithredu fel cymuned glos gan roi parch i bob aelod. Mae’r disgyblion a’r staff yn cyfarch ei gilydd yn naturiol gwrtais ac mae teimlad cryf o foddhad a hapusrwydd yn nodwedd amlwg iawn. Mae pob disgybl yn ddiwahân yn cael ei dderbyn a’i gynnwys yn holl weithgareddau cwricwlaidd ac allgyrsiol yr ysgol.

Mae’r ysgol yn ymroi’n weithgar i godi arian at achosion da yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Mae hyn yn cynyddu ymwybyddiaeth disgyblion o gydraddoldeb ac amrywiaeth.

Mae’r ysgol yn darparu amgylchedd dysgu effeithiol sy’n cyfoethogi profiadau disgyblion. Mae ganddi adnoddau a gofod digonol ar gyfer nifer y disgyblion ac mae’r mannau addysgu mewnol a’r gofod allanol yn cael eu cadw’n daclus iawn.

Mae'r holl ardaloedd addysgu yn hygyrch i bawb. Mae'r disgyblion a'r athrawon yn gwneud defnydd pwrpasol iawn o'r holl ofod ac o'r adnoddau.

Mae gofodau addysgu'r adeilad a'r coridorau wedi eu haddurno'n bwrpasol a difyr i alluogi disgyblion weithredu mewn ffyrdd gwahanol e.e. amgylchedd tawel ar gyfer gwaith unigol, ac ardaloedd penodol ar gyfer gweithgareddau ymarferol.

Mae'r ysgol wedi dechrau datblygu'r gofod allanol yn lled ddiweddar i gynnwys gardd lysiau, gofod chwarae meddal, a gofod chwarae pêl ar wahân, sy'n rhoi mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau corfforol.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Rhagorol**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol ac mae'n llwyddo i gyfleu'r weledigaeth honno'n llwyddiannus iawn i'r staff, y llywodraethwyr a'r disgyblion. Mewn ffordd ddidwyll a phroffesiynol, mae'n rhoi cyfeiriad strategol cwbl eglur i fywyd a gwaith yr ysgol, sy'n cael dylanwad cadarnhaol ar safonau a lles y disgyblion ar draws yr ysgol. Mae'r pennaeth, y dirprwy, y staff, a'r llywodraethwyr yn cydweithio'n effeithiol fel tîm er mwyn sicrhau'r gorau ar gyfer pob un yn yr ysgol.

Mae gan yr ysgol ystod eang o bolisïau rheolaethol a chwricwlaidd o safon uchel, sy'n cael eu gweithredu'n effeithiol. Mae gan yr holl staff gyfrifoldebau a disgrifiadau swyddi clir sy'n cael eu cyflawni'n gydwybodol iawn. Mae'r cyd gysylltwyr cwricwlaidd yn cynnig arweiniad clir ynglŷn â'u meysydd cyfrifoldeb ac yn cyfrannu'n effeithiol at y broses hunan arfarnu.

Mae'r corff llywodraethol yn cyflawni ei rwymedigaethau statudol yn effeithiol, ac mae gan ei aelodau ymwybyddiaeth briodol o berfformiad cyfredol yr ysgol. Mae'r llywodraethwyr yn ymweld â dosbarthiadau yn rheolaidd. Mae'r ymweliadau hyn yn fodd iddynt gynnig cefnogaeth lwyddiannus i'r ysgol wrth gynllunio'n strategol.

Llwydda'r ysgol i dalu sylw dyledus i nifer o flaenoriaethau cyfredol. Mae'n gweithredu'r Cyfnod Sylfaen a nifer o strategaethau datblygu sgiliau meddwl ac asesu ar gyfer dysgu yn llwyddiannus. Mae'r ysgol hefyd wedi ymrwymo i Gynllun Dal i Fynd, Gemau'r Ddraig a PESS er mwyn hybu ffitrwydd disgyblion. Mae'r ysgol hefyd yn cydnabod pwysigrwydd llais y dysgwr ymhob elfen o fywyd yr ysgol.

Mae'r athrawon yn defnyddio eu hamser cynllunio, paratoi ac asesu'n effeithiol ac o ganlyniad i'r trefniadau hyn, mae disgyblion yn elwa ar waith arbenigwyr ym maes cerddoriaeth ac addysg gorfforol. Mae rôl y staff cefnogi yn effeithiol ar draws yr ysgol. Mae gwariant yn y cynllun datblygu ysgol yn cael ei nodi'n ofalus, yn arbennig ar gyfer staffio.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r adroddiad hunan arfarniad o ansawdd da ac ar y cyfan mae'n adnabod yn glir y mwyafrif o'r ardaloedd i'w datblygu o fewn yr ysgol. Mae gan yr ysgol drefniadau

effeithiol a thrylwyr sydd wedi eu sefydlu ers nifer o flynyddoedd, gan gynnwys arsylwi gwersi, holi dysgwyr a chraffu ar eu gwaith.  Mae'r ysgol yn cynnwys barn llywodraethwyr, rhieni a disgyblion yn effeithiol o fewn ei threfniadau hunan arfarnu.

Mae deilliannau'r broses hunan arfarnu yn dylanwadu'n briodol ar flaenoriaethau yn y cynllun datblygu ysgol.  Mae'r cynllun o ansawdd da, ac wedi ei seilio ar arfarniad o'r cynllun blaenorol a'r blaenoriaethau a ddaeth i'r amlwg o fewn y broses hunan arfarnu.  Mae'r blaenoriaethau'n glir ac mae deilliannau llwyddiant a'r effaith ar safonau wedi eu disgrifio'n fanwl.

Mae'r ysgol wedi ymateb yn llawn i argymhellion adroddiad yr arolygiad diwethaf.

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi dechrau mynd i'r afael â rhai o egwyddorion y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion.  Mae'r athrawon yn gweithio fel rhan o rwydweithiau o arfer broffesiynol o fewn y sefydliad ac yn ehangach gydag ysgolion eraill.  Yn fewnol, mae'r ysgol yn cynnal cyfarfodydd i drafod a rhannu arferion diweddaraf ym maes dysgu ac addysgu megis datblygu medrau meddwl, Asesu ar gyfer Dysgu, Ysgol Iach ac Eco Ysgol.  Yn ehangach gweithir yn agos ag ysgolion y clwstwr ar amryw o gyweithiau gan ymweld â dosbarthiadau mewn sefydliadau eraill er mwyn rhannu arfer dda.

Cefnogir datblygiad proffesiynol parhaus y staff trwy system rheoli perfformiad effeithiol sy'n gosod targedau perthnasol ar gyfer gwella unigolion o fewn cyd-destun yr ysgol.

**Gweithio mewn partneriaeth:  Da**

Mae'r ysgol wedi meithrin ystod o bartneriaethau strategol defnyddiol.

Mae perthynas gref yn bodoli gyda'r rhieni ac  maent yn cyfrannu at rai gweithgareddau yn yr ysgol, er enghraifft, mae rhai unigolion yn gweithio gyda grwpiau darllen yng nghyfnod allweddol 2.  O ganlyniad i gwblhau holiaduron barn, maen rhieni  wedi cyfrannu'n weithredol at welliannau yn yr ysgol ac yn chwarae rhan weithredol wrth drafod targedau gwelliant eu plant.

Mae cysylltiadau clos gyda'r gymuned leol, sy'n dylanwadu'n gadarnhaol ar ansawdd yr addysg.

Mae'r ysgol yn gweithio'n agos gydag adrannau'r Cyngor Sir, gyda'r ysgol uwchradd leol a gydag ysgolion cynradd eraill y cylch.  Yn ogystal mae gan yr ysgol bartneriaethau gydag ystod eang o gyrff cyhoeddus a masnachol.  Er enghraifft, creodd disgyblion a staff yr ysgol yr ardd lysiau gyda chymorth disgyblion Ysgol Dyffryn Nantlle a fferm leol.  Mae cynrychiolwyr o'r gwasanaethau argyfwng yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd i roi hyfforddiant a phrofiadau priodol.

Mae'r pennaeth wedi ffurfioli'r partneriaethau  uchod ar ffurf llythyrau o gytundeb; mae hyn yn dangos ei fod wedi gosod sail gref ar gyfer datblygiadau pellach ac yn rhagweld mwy o gydweithredu.  Mae'r elfen hon o gynllunio drwy ffurfioli partneriaethau strategol yn arfer da yn gryfder amlwg.

Mae cyswllt a chyfathrebu effeithiol yr ysgol gyda'i phartneriaid wedi arwain at wella ansawdd addysgu, er enghraifft Asesu ar gyfer Dysgu a'r Cyfnod Sylfaen.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r ysgol yn rheoli ei hadnoddau'n effeithiol. Mae'r holl staff yn cydweithio'n effeithiol er mwyn creu amgylchedd cyffrous a deniadol i'r disgyblion.

Mae'r athrawon yn defnyddio eu hamser cynllunio, paratoi ac asesu'n effeithiol ac o ganlyniad i'r trefniadau hynny mae disgyblion yn elwa ar waith arbenigwyr ym maes cerddoriaeth ac addysg gorfforol. Mae rôl y staff cefnogi yn effeithiol ar draws yr ysgol.

Darpara'r ysgol hyfforddiant addas ar ffurf cyrsiau unigol a chyrsiau hyfforddiant ar y cyd. Gwna'r defnydd gorau posibl o'r adnoddau i atgyfnerthu profiadau dysgu'r disgyblion.

Mae'r gwariant yng nghynlluniau datblygu'r ysgol yn cael ei gynllunio a'i gofnodi'n ofalus, yn arbennig ar gyfer anghenion staffio. Mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian o ran deilliannau disgyblion ac yn ei defnydd o gyllid.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymateb i holiaduron dysgwyr**

Ymatebodd 41 o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 i'r holiadur. Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, ac yn gwybod beth i'w wneud ac at bwy i droi os oes angen cymorth arnynt wrth eu gwaith. Cred pob disgybl eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol, a bod yr athrawon a staff eraill yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. Mae bron pob disgybl yn credu bod eu gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwella gwaith a bod plant eraill yn ymddwyn yn dda yn ystod y gwersi. Mae pob un o'r disgyblion yn credu bod digon o adnoddau pwrpasol, gan gynnwys cyfrifiaduron, yn yr ysgol iddynt wneud eu gwaith. Maent hefyd yn credu bod yr ysgol yn delio'n dda gydag unrhyw achos o fwlio, ac mae bron pawb yn gwybod at bwy i droi os ydynt yn poeni neu ofidio. Maent i gyd yn credu bod yr ysgol yn eu dysgu sut i gadw'n iach a rhoi llawer o gyfleoedd rheolaidd iddynt gael ymarfer corff. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn credu bod plant eraill yn ymddwyn yn dda amser chwarae, amser cinio.

**Ymateb i holiaduron rhieni**

Ymatebodd 27 o bobl i'r holiadur, sef tua hanner y rhieni â phlant yn yr ysgol. Mae y rhan fwyaf ohonynt yn fodlon â'r ysgol yn gyffredinol, ac mae bron pob un yn credu bod eu plant yn hoffi'r ysgol ac yn ddiogel yno. Maent yn datgan bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. Mae bron pob un ohonynt yn teimlo bod eu plant yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol ar ôl cael cymorth i ymgartrefu'n dda yno. Credant fod yr addysgu'n dda a bod athrawon a staff yr ysgol yn disgwyl i'r disgyblion weithio'n galed a gwneud eu gorau. Caiff rhieni wybodaeth gyson ar gynnydd eu plant, ac mae gwaith cartref yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae disgyblion yn ei ddysgu yn yr ysgol. Mae bron pob un o'r rhieni'n teimlo y caiff disgyblion gefnogaeth dda yn ôl eu hanghenion, ac yn teimlo'n gysurus ynglŷn â gofyn cwestiynau a gwneud awgrymiadau i'r ysgol. Teimlant fod yr ysgol yn helpu eu plant i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. Ym marn bron pawb o'r rhieni, mae'r ysgol yn annog eu plant i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. Maent yn credu bod amrywiaeth dda o weithgareddau gan gynnwys ymweliadau addysgol, ac mae'r rhan fwyaf yn teimlo bod yr ysgol yn paratoi disgyblion yn dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol uwchradd.

## Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Terwyn Tomos | Arolygydd Cofnodol |
| Huw Watkins | Arolygydd Tîm |
| Jeremy George Turner | Arolygydd Lleyg |
| Prydwen Elfed Owens | Arolygydd Cymheiriaid |
| Geraint Jones (Pennaeth) | Enwebai'r Ysgol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |